

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community  
Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth, 10/7/2018 am 6.30y.h..

*Minutes of meeting held Tuesday Evening, 10/7/2018 at 6.30pm.*

**Presennol / Present:** Ms Sandra Thomas (Cadeirydd 'Dros Dro' / 'Temporary Chairperson') **ST**, \*Mr Arthur Thomas **AT**, Mr Mark Evans **MEE**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc) **LH**.

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Mr Cenwyn Williams **CW**.

\* Dim ond am 5 munud y bu **AT** yn bresennol yn y cyfarfod. / *AT only attended the meeting for 5 minutes.*

**1. Croeso / Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.  
*The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.*

Yn anffodus nid roeddem yn gallu cynnal cyfarfod llawn, oherwydd nid roedd gennym digon o aelodau i greu 'quorum'.

*Unfortunately we were unable to hold a full monthly meeting, because we did not have enough members to create a quorum.*

**2. Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2017/2018 - Ffurflen Flynyddol, Datganiad Cyfrifyddu / Datganiad Llywodraethu. / Council Accounts Audit 2017/2018 - Annual Return, Statement of Accounting / Governance Statement.**

Roedd rhaid i ni drafod a cwblhau y ffurfleni yn barod i bostio i BDO (archwilydd allanol). Cwblhawyd yr Archwiliad Mewnol a derbyniwyd cadarnhad ganddo fod popeth wedi ei gwblhau. Cyflwynodd y Clerc y Ffurflen Flynyddol i'r Cyngor. Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd drost dro.

*We had to discuss and complete the forms ready to be posted to BDO (external auditor). The Internal Audit was completed and confirmation was received that everything had been completed. The Clerk submitted the Annual Return to the Council. Following discussion the Annual Return was approved and it was signed by the Temporary Chairperson.*

**3. Aelod newydd / New member**

Mae Mr Steven A Jones **SAJ** wedi cael ei dderbyn ar y Cyngor Cymuned Llanidan. Mae **SAJ** wedi mynychu'r cyfarfodydd Cyngor Cymuned yn y gorffennol fel clerc a fel aelod o'r cyhoedd. Mae yna sawl trafodaeth eisioes wedi ei gynnal yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned ar gychwyn y flwyddyn. Cais ysgrifenedig wedi ei dderbyn gan **SAJ**.

Aelodau yn derbyn cais **SAJ** yn y cyfarfod yma sef **ST** a **MEE**. Aelod yn cael ei dderbyn drost alwad ffôn cynhadledd **CW**.

Sefyllfa arbennig wedi codi lle mae angen neilltuo unigolyn ar frys.

Nifer o aelodau felly ar 10/7/2018 yw 5.

*Mr Steven A Jones **SAJ** has been received on the Llanidan Community Council.*

***SAJ** has attended Community Council meetings in the past as a clerk and as a member of the public. There has been a number of discussions already held during Community Council meetings at the beginning of the year. Written request has been received from **SAJ**.*

*Members accept **SAJ** application at this meeting, **ST** and **MEE**. Member received conference telephone call from **CW**.*

*A special position has arisen where an individual needs to be assigned urgently. The number of members as at 10/7/2018 is 5.*

#### **4. Biliau iw Dalu / Bills for Payment**

£35.75 - I **LH** am bapur A4 a inc du a lliw i'r printar / *To **LH** for A4 paper and black and coloured ink for the printer.*

£1.77 - I **LH** am yrru cais i newid mandad y banc trwy Recorded Delivery 12/5/2018. / *To **LH** for sending application form to have the bank mandate changed via Recorded Delivery 12/5/2018.*

£1.77 - I **LH** am yrru sic i Zurich Municipal am yswiriant trwy Recorded Delivery 21/5/2018. / *To **LH** for sending a cheque to Zurich Municipal via Recorded Delivery 21/5/2018.*

£1.10 - I **LH** am ail-yrru cais i newid mandad y banc trwy Recorded Delivery 5/6/2018. / *To **LH** for re-sending application form to have the bank mandate changed via Recorded Delivery 5/6/2018.*

£400.00 - Eglwys Llanidan yn gofyn am cyfraniad ariannol tuag at cynnal a chadw'r fynwent am y flwyddyn 2018/19. / *Llanidan Church requesting a financial contribution towards the maintenance of the churchyard for the year 2018/19.*

£288.00 - Huw Frazer Owen am torri gwrychoedd yn cae chwarae a cae peldroed Brynsiencyn. / *For hedge cutting in Brynsiencyn playing field and football field.*

Talwyd y biliau uchod. / *Above payments were paid.*

Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **MEE**. / *Proposed by **ST**, Seconded by **MEE**.*

#### **5. Cae Chwarae - Adroddiad gan RoSPA 2018 / ROSPA's 2018 report.**

Trafodwyd adroddiad ROSPA. / *ROSPA report was discussed.*

Mae angen i ni fynd allan a prynu anti climbframe ein hunain er mwyn yw osod yn y cae peldroed.

*We need to go out and buy our own anti-climbframe so that we can install it in the football field.*

Mae multiplay sydd yn y cae chwarae yn risg uchel ag angen ei dynnu i lawr ar unwaith. Ni rydym yn gallu aros tan y cyfarfod nesaf 31/7/2018 oherwydd bydd y gwyliau haf yr ysgol wedi cychwyn.

*Multiplay in the playing field is a high risk that needs to be taken down immediately. We cannot wait until the next meeting 31/7/2018 because the school summer holidays will have started.*

Mae yna chwech eitem coch ar y rhestr sydd angen sylw ar frys.

*There are six red items on the list that need urgent attention.*

Mae angen ceisio am grantiau fel gan cwmni Watkin Jones cyn diwedd mis Medi er mwyn i ni cael prynu offer newydd i'r cae chwarae.

*There is a need to apply for grants from companies such as Watkin Jones before the end of September so we can buy new equipment for the playing field.*

**6. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Nos Fawrth, 31/07/2018 am 6.30y.h. o'r gloch yn 'Y Ganolfan'.

*Tuesday Evening, 31/07/2018 at 6.30pm in the 'Y Ganolfan'.*

6.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.10y.h.

*The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.10pm.*

**Arwyddwyd – Cadeirydd / Signed – Chairperson**

---

**Dyddiad / Date:**